Trawsnewid bywydau: Prifysgolion yng Nghymru

Prifysgolion Cymru - Etholiad Cyffredinol 2019

Universities Wales Prifysgolion Cymru

Mae prifysgolion yng Nghymru ar flaen y gad mewn system addysg Gymreig flaengar sy'n gwasanaethu pobl, cymdeithas a'r economi. Mae rôl prifysgolion yn eu cymunedau'n hanfodol, ac maent yn dwyn budd i bobl Cymru drwy eu gweithgareddau.

Er bod llawer o'r materion allweddol i brifysgolion ac addysg uwch yng Nghymru wedi'u datganoli, mae yna feysydd lle mae penderfyniadau uniongyrchol a wneir gan Lywodraeth y DU a Senedd y DU yn arwain at ganlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Meysydd fel ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd, ymfudwyr a chyllidwyr ymchwil.

Mae'r blaenoriaethau a amlinellir yn y ddogfen hon yn dri maes lle gall Senedd y DU wneud gwahaniaeth.

1. Cronfa Ffyniant a Rennir

Rydym yn gofyn i bleidiau ymrwymo i wneud y canlynol:

- **Cyflenwi cronfeydd strwythurol yng Nghymru yn llawn yn dilyn Brexit**
- **Datganoli cronfa ffyniant a rennir yn y dyfodol i Gymru**

Mae Arian Strwythurol a Buddsoddiad Ewropeaidd yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru.

Ers 2014, derbyniodd prifysgolion Cymru dros £280 miliwn o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddiad Ewropeaidd fel partneriaid blaenllaw mewn prosiectau. Mae'r cyllido yma wedi galluogi prifysgolion i hybu twf economaidd, creu swyddi, a darparu ymchwil ac arloesi. Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu bod y manteision a ddaw i Gymru yn sgil y buddsoddiad hwn mewn perygl.

Cred Prifysgolion Cymru y dylid cyflenwi'r arian yma'n llawn. Yn flaenorol, mae Llywodraeth y DU wedi addo sefydlu 'Cronfa Ffyniant a Rennir' i gymryd lle'r cyllido hwn. Mae Prifysgolion Cymru o'r farn y dylai'r cyllido hwn gael ei ddatganoli o'r cychwyn cyntaf, ac y dylai weithredu ar fodel buddsoddiad yn seiliedig ar anghenion.

Dylid darllen y gofynion hyn ochr yn ochr â'r cyhoeddiad gan Universities UK: 'General Election 2019: Skills, Jobs and Opportunity'.

Pam mae hyn yn bwysig

Mae prifysgolion Cymru wedi arwain ystod eang o brosiectau cydweithredol gan ddefnyddio arian o Gronfeydd Strwythurol yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys:

Y prosiect Technolegau Gweithgynhyrchu Cynaliadwy Uwch (ASTUTE) a roddodd gymorth, yn ei flynyddoedd cyntaf, i fwy na 250 o fentrau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 2010-15 gan greu effaith economaidd o fwy na £200 miliwn, a chreu £8 o effaith economaidd am bob £1 a fuddsoddwyd.

Prosiect Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth 2 (KESS 2) sy'n hyrwyddo datblygiad sgiliau lefel uchel drwy gynyddu gallu ymchwil busnesau bach i ganolig, gan leoli myfyrwyr Meistr neu PhD gyda'r busnesau hynny. Cyflawnodd y prosiect KESS cyntaf 230 o brosiectau PhD a 223 o rai Meistr Ymchwil gyda busnesau ledled Cymru.

Gallwch ddarllen mwy am y prosiectau a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE yn ***www.uniswales.ac.uk***

Trawsnewid bywydau: Prifysgolion yng Nghymru

Prifysgolion Cymru - Etholiad Cyffredinol 2019

2. Gwneud i'r DU weithio i'w holl wledydd

Rydym yn gofyn i bleidliau ymrwymo i wneud y canlynol:

- **Sicrhau bod Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn ystyried effaith eu penderfyniadau ar y gwledydd datganoledig**

Gall penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU gael effaith sylfaenol ar feysydd o gyfrifoldeb datganoledig. Er enghraifft, mae penderfyniadau Llywodraeth y DU ar symudedd myfyrwyr, ffioedd myfyrwyr, cyllid ar gyfer addysg uwch neu newidiadau i Gynllun Pensiwn Athrawon, i gyd yn creu deilliannau i addysg uwch yng Nghymru.

Mae Prifysgolion Cymru yn credu, wrth wneud penderfyniadau ar faterion a fydd yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig, y dylai Llywodraeth y DU roi sylw dyledus i'r effaith honno. Gallai hyn fod drwy broses fwy ffurfiol ar gyfer asesu effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU ar y gwledydd datganoledig neu gryfhau rôl Cyd Bwyllgor y Gweinidogion: fforwm sy'n cynnwys y DU a'r gwledydd datganoledig.

Cyfranogwch

Os ydych chi'n rhannu ein blaenoriaethau, neu eisiau darganfod mwy am pam mae'r materion hyn yn bwysig i Gymru, cysylltwch â ni:

www.uniswales.ac.uk

@Unis_Wales

Kieron.Rees@uniswales.ac.uk

3. Prifysgolion wrth galon cymunedau

Rydym yn gofyn i bleidliau ymrwymo i wneud y canlynol:

- **Canolbwyntio o'r newydd ar rôl prifysgolion yn eu cymunedau, gan gynnwys ffocws ar gynyddu cynhyrchiant**
- **Ceisio cysylltiad llawn â rhaglenni allweddol fel Horizon Europe a'r cynllun a ddaw ar ôl Erasmus+**

Mae prifysgolion yn chwarae rôl gymdeithasol, economaidd a diwylliannol bwysig yn eu cymunedau. Maent yn dod â buddsoddiad, swyddi a phobl i ardal. Maent yn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol a'r economi sylfaenol. Mae yma gyfle i Lywodraeth y DU yn y dyfodol ail-ddychmygu sut mae adfywio rhanbarthol yn gweithio, a sut maen nhw'n rhoi cymorth i brifysgolion gynyddu cynhyrchiant ledled y DU.

Mae cyflenwi a datganoli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddiad Ewropeaidd yn un rhan allweddol o hyn. Ond mae cyfleoedd ychwanegol, gan gynnwys defnyddio cytundebau dinas a chytundebau twf, a'r defnydd o fuddsoddiad gan Ymchwil ac Arloesedd y DU i hybu datblygiad ymchwil rhagorol ym mhob rhan o'r DU.

Mae rhaglenni Ewropeaidd fel Erasmus+ a Horizon 2020 hefyd wedi chwarae rôl allweddol wrth roi cymorth i bobl a lleoedd ledled y DU. Hyd yma mae dros €82 miliwn (67%) o'r holl gyllid Horizon 2020 a ddaeth i Gymru wedi'i ddosrannu ymhlith prifysgolion Cymru. Rydym yn gofyn i bleidiau geisio ymgysylltiad llawn â'r rhaglenni a ddaw ar ôl Erasmus+ a Horizon 2020.